**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref DET/03021/20

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd, y Pwyllgor
Deisebau

16 Tachwedd 2020

Annwyl Janet,

Diolch am eich gohebiaeth, ynghylch deiseb P-05-1063 i agor cyrsiau golff yn ystod y cyfnod atal.

Rwy'n ymddiheuro am yr oedi wrth ymateb i'ch ymholiad.

Fel y gwyddoch, roedd angen y gweithredu am bythefnos i achub bywydau a sicrhau bod y GIG yn gallu ymdopi. Mae achosion o'r coronafeirws wedi bod yn cynyddu'n gyflym yng Nghymru wrth i'r feirws ddeffro ar gyfer y gaeaf. Er bod y mesurau cenedlaethol a lleol a drefnwyd ledled Cymru wedi helpu i gadw rheolaeth ar ledaeniad yr haint, roedd consensws cynyddol bod angen rhagor o weithredu, gyda neges gref i 'aros gartref'. Bu'n rhaid ystyried effaith gronnol y camau y byddwn yn eu cymryd. Effaith gyfun gweithredu niferus sy'n gneud y gwahaniaeth, yn hytrach na risg un gweithgarwch.

Yn dilyn diwedd y cyfnod atal yn yr Hydref, o'r 9fed Tachwedd daeth cyfres newydd o reoliadau i Gymru, ac mae nifer o'r cwestiynau cyffredin a'r atebion yn gysylltiedig â'r rheoliadau hynny i'w gweld yma. Ar 2 Tachwedd amlinellodd y Prif Weinidog y mesurau cenedlaethol newydd a ddaeth i rym yn dilyn y cyfnod atal, gan gadarnhau y byddai cyrsiau golff a chyfleusterau hamdden yng Nghymru yn gallu ail-agor o'r 9 Tachwedd, ac y bydd gweithgareddau wedi'u trefnu ar gyfer grwpiau o hyd at 15 o dan dô a hyd at 30 yn yr awyr agored yn cael ei ganiatáu ledled Cymru.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech hysbysu eich etholwr ein bod yn cydnabod yn llawn ymdrechion ac aberth y cyhoedd a busnesau yng Nghymru i gadw Cymru yn ddiogel ac i achub bywydau, a'n bod yn ddiolchgar iawn. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gynnig diweddariadau rheolaidd drwy gynadleddau i'r wasg am Covid-19 a'n sianeli ar y cyfryngau cymdeithasol dros yr wythnosau nesaf.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Rwy’n gobeithio bod hyn yn gwneud y sefyllfa bresennol yn fwy eglur.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism